CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION PWYLLGOR CYFFREDINOL 22 IONAWR 2008

Presennol
Ei Theilyngdod Y Maer – Cyng. Myfi Powell-Jones

Cynghorwyr

R M Jones, I Thomas, W T Owen, H Edwards, H W Roberts, H Gwyn, O T Owen, A W Bohana, W R Owen, A Kirk, A Y Williams, M E Williams, T Thomas, G Parry

1. Ymddiheuriadau
Dim un

2. Datgan Buddiant Personol
R M Jones, H Edwards, G Parry, W R Owen , W T Owen – Cynllunio

3. Eitemau brys

E-bost Llinos Iorwerth

4. Ceisiadau Cynllunio

I ystyried y ceisiadau
Penderfynwyd
Anfon rhestr argymhellion i'r awdurdod cynllunio priodol(gweler rhestr amgaeedig)

5. Cyfrifon

I gymeradwyo biliau i'w talu
Penderfynwyd
Derbyn a'u talu

6. Cymunedau'n Gyntaf

Noson Galeri, Mercher, 13 Chwefror
Penderfynwyd
Pawb sydd yn rhydd i geisio fynd, pawb i ymateb yn unigol

7. E-bost – Y Llewod

Par: Noson Tan Gwyllt
Penderfynwyd
Derbyn a gofyn am y manylion bob blwyddyn

8. Llythyr Ymddiriedolaeth GIG

Par: Capel Bodfan
Penderfynwyd
I'r Maer , Dirprwy Faer, a'r clerc ymweld a'r perchennog i weld a fyddant yn fodlon rhoi y garreg fel rhodd i'r dre, gan ystyried Mynwent Llanbeblig fel safle iddi. Hefyd cysylltu a Cyngor Gwynedd i geisio cael caniatâd i osod y garreg yn y Fynwent . Ysgrifennu yn ôl at yr Ymddiriedolaeth i nodi mae nhw sydd yn gyfrifol am geisio cael y garreg yn ôl. Os yn llwyddiannus i gael y carreg yn ôl i'r dre angen llechen i nodi mwy o fanylion arni.

9. Llythyr 'AAP Consulting'

Aeth y Cynghorwyr Sir i gyd allan yn ystod y drafodaeth

Penderfynwyd
Sylwadau a wnaethpwyd – angen sicrwydd y bydd busnesau yn Cibyn yn gallu manteisio ar y cyfle, sicrhau bod nhw ddim yn amharu ar signal teledu yn yr ardal, sicrhau bod busnesau y dre i gyd yn gallu manteisio ac ei bod o i gyd yn saff

10.E-bost 'College of Arms'

Ymateb parthed defnydd o'r Arfbais

Penderfynwyd
Clerc i greu polisi swyddogol i'r Cyngor am ddefnydd o'r arfbais a'r bathodyn sydd yn sicrhau bod y Cyngor yn wyliadwrus i pwy sydd yn cael yr hawl

11. **Cwestiynau**
Dim

12. **E-bost Llinos Iorwerth**

Wedi cael swydd newydd am gyfod o 3 mis i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn y dre ac yn ceisio dod i drafod gyda'r Cyngor.

Penderfynwyd

Oherwydd bod Siaradwyr gwadd eisoes wedi llenwi am y cyfnod – Ysgrifennu llythyr cefnogol i'r fenter, gan ofyn iddi gysylltu a'r Siambr Fasnach gan ein bod yn teimlo mae nhw fuasai yn manteisio mwyaf o'r ddarlith

Gorffennodd y Cyfarfod am 7.00

Arwyddwyd..... Dyddiad.....